
Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Tachwedd 2021



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog. gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Wewelcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

Negeseuon allweddol 4

Ffeithiau allweddol 7

Argymhellion 8

**Prif adroddiad 10**

1 Cysoni strategaethau a pholisïau 11

2 Trefniadau contractio 24

**Atodiadau 36**

1 Ymagwedd a dulliau archwilio 37

2 Ynghylch y Rhaglen Cartrefi Clyd 39

# Negeseuon allweddol

## Cyd-destun

1 Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar sut mae Llywodraeth Cymru yn rheoli iteriad presennol Rhaglen Cartrefi Clyd (y Rhaglen). Mae'r Rhaglen yn cynnwys cynlluniau Nyth ac Arbed sydd wedi bod yn rhan allweddol o uchelgeisiau strategol Llywodraeth Cymru i leihau tlodi tanwydd, a'i ddileu yn y pen draw. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn ein hadroddiad yn 2019 ar Dlodi Tanwydd, a roddodd drosolwg eang o uchelgeisiau a chynnydd Llywodraeth Cymru ar y pryd.

2 Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn benodol ar drefniadau contractiol diweddaraf Llywodraeth Cymru â'i Rheolwyr Cynllun penodedig i wella perfformiad ynni cartrefi unigol. Mae hefyd yn ystyried trefniadau sicrhau ansawdd Llywodraeth Cymru. Mae **Atodiad 1** yn disgrifio ein hymagwedd a'n dulliau archwilio. Mae **Atodiad 2** yn rhoi mwy o fanylion am gynlluniau Nyth ac Arbed.

3 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun tlodi tanwydd newydd ym mis Mawrth 2021. Mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol yn dod i ben yn ystod y ddwy i bum mlynedd nesaf. Daeth cynllun Arbed i ben ddechrau mis Tachwedd 2021. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailadrodd ei hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ac i ddatgarboneiddio cartrefi yn Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026. Ar hyn o bryd, mae'n ystyried sut y bydd y Rhaglen yn gweithredu yn y dyfodol. Rydym wedi canolbwyntio'r adroddiad hwn ar y materion a'r gwersi allweddol y dylai Llywodraeth Cymru eu datblygu yn iteriad nesaf y Rhaglen.

## Casgliad cyffredinol

4 Mae gan Lywodraeth Cymru sawl mater i'w ddatrys wrth drosglwyddo i iteriad nesaf ei Rhaglen Cartrefi Clyd. Bydd angen symud y mathau o systemau gwresogi a gynigir i aelwydydd i dechnolegau mwy newydd a gwyrddach. Ond mae'n debyg y bydd hyn yn golygu cost ychwanegol. Bydd angen i Lywodraeth Cymru fod yn gliriach ynghylch diben craidd Nyth hefyd ac ystyried ymarferoldeb parhaus y dull ar sail ardal a ddefnyddir gan gynllun Arbed o ystyried ei fod yn tangyflawni. Beth bynnag y bo dyfodol y Rhaglen Cartrefi Clyd, bydd angen tynhau contractau a chryfhau goruchwyliaeth er mwyn sicrhau gwerth am arian.

## Canfyddiadau allweddol

5 O ystyried ei huchelgeisiau i gyflawni allyriadau carbon sero-net, bydd angen i Lywodraeth Cymru ailystyried y mesurau effeithlonrwydd ynni a gynigir. Mae’r ddau gynllun yn dibynnu’n drwm ar osod gwres tanwydd ffosil, yn enwedig boeleri nwy. Gallai boeleri newydd ac effeithlon gynhyrchu llai o garbon na rhai hŷn, ond nid y nhw yw’r dewis mwyaf effeithiol o safbwynt amgylcheddol. Fodd bynnag, mae’r prif ddewisiadau eraill yn costio mwy. Heb gynnydd sylweddol mewn cyllid, byddai llai o adeiladau’n elwa o’r Rhaglen oherwydd y byddai’r gost fesul cartref yn cynyddu.

6 Bydd angen i Lywodraeth Cymru fod yn gliriach ynghylch diben craidd unrhyw gynllun sy’n olynu Nyth a phwy y mae’n bwriadu ei helpu. Mae’r cynllun wedi newid o’i ddiben gwreiddiol o fynd i’r afael â thlodi tanwydd yn gyffredinol. Mae wedi canolbwyntio fwyfwy ar ddisodli boeleri sydd wedi torri neu foeleri aneffeithlon ar gyfer pobl sydd ar fudd-daliadau sy’n dibynnu ar brawf modd. Mae’r ffordd y mae’r cynllun wedi datblygu’n golygu bod rhywfaint o’r cyllid yn cael ei flaenoriaethu i bobl efallai nad ydynt yn dlawd o ran tanwydd.

7 Mewn unrhyw gynllun dilynol, bydd angen i Lywodraeth Cymru adolygu hefyd ymarferoldeb y dull ar sail ardal a ddefnyddir gan gynllun Arbed, o ystyried ei fod yn tangyflawni. Profodd y cynllun oedi sylweddol a chafodd llawer llai o aelwydydd sy’n dlawd o ran tanwydd gymorth nag y dymunai Llywodraeth Cymru. Er bod COVID-19 yn ffactor, roedd y cynllun gryn ffordd y tu ôl i’r targedau cyn i’r pandemig gyrraedd. Nod y cynllun oedd targedu clystyrau o gartrefi mewn ardaloedd difreintiedig a oedd yn aneffeithlon iawn o ran ynni. Fodd bynnag, nid yw’n glir faint o glystyrau o’r fath sy’n dal i fodoli.

8 Gwnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau i gontract Arbed, er mwyn cyflymu’r broses o gyflawni hyn, ond cyfyngedig oedd yr effaith a gafodd. Oherwydd nad oedd Arbed yn gallu gwario ei gyllideb, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddadneilltuo £7.5 miliwn o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Oherwydd nad oedd gan y darparwr y gallu i gynyddu’r ddarpariaeth, nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu symud ei chyllid i gynllun Nyth.

9 Mae angen tynhau contractau yn y dyfodol er mwyn ceisio sicrhau mwy o gysondeb o ran costau ac annog gwell gwerth am arian. Wrth osod contractau Nyth ac Arbed, cyfyngedig oedd y gwaith meincnodi a wnaed. Mae gwahaniaethau sylweddol o ran faint y mae’r ddau Reolwr Cynllun yn ei godi ar Lywodraeth Cymru i gyflenwi a gosod yr un mesurau effeithlonrwydd ynni. Mae risgiau i werth am arian hefyd oherwydd y ffordd y mae’r contractau’n nodi pa waith y mae angen i gontractwyr ei wneud i gael eu talu. Yn benodol, mae’n bosibl y gall contractwyr hawlio taliadau sefydlog llawn ar gyfer mesurau goleuadau neu ddŵr pan na fyddant ond yn gosod ychydig o fylbiau golau neu awyryddion ar dapiau yn rhan o becyn ehangach o fesurau effeithlonrwydd ynni.

10 Byddai cynlluniau yn y dyfodol yn elwa ar ragor o waith craffu ar yr hyn a gyflawnir, monitro cydymffurfio â'r contract yn agosach (yn arbennig, gwirio bod cynlluniau adfer yn sgil trychinebau ar waith ar ddechrau'r contract yn hytrach na chadarnhau hynny yn llawer diweddarach) a gwell gwybodaeth reoli. Mae goruchwyliaeth y Rhaglen gan Lywodraeth Cymru wedi ei llesteirio gan fylchau mewn gwybodaeth reoli a gwybodaeth reoli anghywir.

11 O dan iteriadau blaenorol y rhaglen, bu problemau gyda gosodiadau o ansawdd gwael yn achosi difrod i gartrefi pobl. Dysgodd Llywodraeth Cymru wersi, gan logi cwmni annibynnol i wneud gwiriadau ar osodiadau yn ogystal â gwirio data perfformiad. Tan yn ddiweddar, bu ôl-groniad o arolygiadau i wirio ansawdd y gosodiadau. Er bod pandemig COVID-19 wedi cyfrannu at yr oediadau, roedd yr ôl-groniad wedi cronni cyn hyn. Hefyd, nid yw rhai elfennau eraill o'r swyddogaeth sicrhau ansawdd ac archwilio wedi eu cyflawni'n llawn hyd yma.

**Mae Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn rhan allweddol o'r ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith rhai o'n dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed. Wrth i ni nesáu at fisoedd oer y gaeaf, mae'r ymchwydd diweddar mewn prisiau ynni yn pwysleisio pwysigrwydd cymorth o'r fath.**

**Bydd angen i gynlluniau'r dyfodol fod yn wyrddach, yn gliriach, a bydd angen eu rheoli'n fwy tynn. Yr her fawr sy'n wynebu Llywodraeth Cymru yw sut y bydd yn cydbwyso ei huchelgeisiau o ran newid yn yr hinsawdd, gan gefnogi hefyd yr aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd sydd fwyaf agored i niwed, sydd wedi dibynnu ar wresogi nwy llai costus i gynhesu eu cartrefi yn draddodiadol, ond sy'n allyrru lefelau uwch o garbon.**

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



# Ffeithiau allweddol

**144,504**
Nifer tybiedig yr aelwydydd yng Nghymru sydd mewn perygl o brofi tlodi tanwydd[1]

**155,000**
Nifer tybiedig yr aelwydydd yng Nghymru sy'n dlawd o ran tanwydd[2]

**Nyth 81% Arbed 94%**
Canran yr aelwydydd sy'n cael prif system wresogi newydd wedi'i gosod sy'n derbyn boeler nwy (Hydref 2018 i Fawrth 2021 ar gyfer Arbed ac Ebrill 2018 i Fawrth 2021 ar gyfer Nyth)

**£7.5 million**
Cyllid yr UE a ddadneilltuwyd oddi wrth Arbed oherwydd ei fod wedi tangyflawni

**£46 million**
Cyllideb wreiddiol Arbed ar gyfer cyfnod mis Mai 2018 i fis Mai 2021

**£90 miliwn**
Cyllideb Nyth ar gyfer cyfnod Ebrill 2018 i Fawrth 2023

**16,042**
Nifer y cartrefi a gafodd fesurau effeithlonrwydd ynni am ddim yn y Rhaglen rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2021

TACH
**3 Tachwedd 2021**
Pryd y daeth cynllun Arbed i ben

MAW
**31 Mawrth 2023**
Pryd y daw'r Cynllun Nyth presennol i ben[3]

Nodiadau:

1 Llywodraeth Cymru, Trechu tlodi tanwydd 2021 i 2035, Mawrth 2021. Mesurir hyn fel unrhyw aelwyd a fyddai'n gorfod gwario rhwng 8% a 10% o'i hincwm ar gynnal trefn wresogi foddhaol.
2 Llywodraeth Cymru, Amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer Cymru: 2018: diwygiedig, Rhagfyr 2019. Mesurir hyn fel unrhyw aelwyd a fyddai'n gorfod gwario mwy na 10% o'i hincwm ar gynnal trefn wresogi foddhaol. Diffinnir bod unrhyw aelwyd sy'n gorfod gwario mwy nag 20% yn profi tlodi tanwydd difrifol.
3 Gyda dewis o'i estyn hyd at ddiwedd Mawrth 2026.

# Argymhellion

Dylid darllen ac ystyried ein hargymhellion ochr yn ochr â'r argymhellion yn ein hadroddiad 2019 ar dlodi tanwydd, yn enwedig y rhai a oedd yn ymwneud â chyllido cynlluniau Arbed a Nyth a bod yn gymwys ar eu cyfer.

## Argymhellion

### Cysoni strategaethau a pholisïau

**A1** Ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r mesurau effeithlonrwydd ynni sydd ar gael i sicrhau eu bod yn gyson â'i huchelgeisiau i leihau allyriadau carbon a sicrhau bod y goblygiadau cost o newid i fesurau gwyrddach yn cael eu cyllidebu'n llawn.

**A2** Dylai Llywodraeth Cymru egluro diben craidd Nyth neu unrhyw gynllun olynol ac a yw'n ymwneud â disodli boeleri sydd wedi torri ar gyfer aelwydydd tlotach neu ddarparu cymorth ehangach i'r rhai sydd â'r risg mwyaf o brofi tlodi tanwydd.

**A3** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a yw'r dull cyflawni ar sail ardal a ddefnyddir gan gynllun Arbed yn parhau i fod yn ymarferol neu a oes angen ei ddiwygio'n sylweddol o ystyried y tangyflawni.

**A4** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau, o dan iteriadau Rhaglen Cartrefi Clyd y dyfodol, fod contractau'n ddigon hyblyg i symud cyllid a chapasiti rhwng cynlluniau er mwyn cynyddu i'r eithaf gyflawniad cyffredinol y Rhaglen.

## Argymhellion

### Trefniadau contractio

**A5** Cyn datblygu iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd, dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad llawn o'r gwersi a ddysgwyd o reoli'r contractau cyfredol a datblygu cynllun clir er mwyn cymhwyso'r gwersi hynny yn yr iteriad nesaf. Yn seiliedig ar ein hadolygiad, rydym yn disgwyl i'r gwersi hynny gynnwys yr angen i:

- gynnal gwaith meincnodi priodol rhwng cynigwyr a chostau cyfredol mesurau effeithlonrwydd ynni yn y farchnad er mwyn sicrhau cysondeb o ran prisio a chael gwerth am arian;
- bod yn glir ynghylch disgwyliadau Rheolwyr Cynllun mewn cysylltiad â manylebau safonol y diwydiant ar gyfer sefydlu mesurau gwella effeithlonrwydd ynni;
- sicrhau bod Rheolwyr Cynllun yn darparu eu cynlluniau adfer yn sgil trychinebau fel sy'n ofynnol gan y contractau;
- monitro perfformiad yn agosach â gwybodaeth reoli fwy cyflawn a chywir; a
- chael cymorth mwy amserol a chynhwysfawr o'u trefniadau sicrhau ansawdd allanol annibynnol.

# Cysoni strategaethau a pholisïau

01

# 1. Yn y dyfodol, bydd angen i'r Rhaglen Cartrefi Clyd fod yn wyrddach a bod â diben cliriach

1.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn edrych ar y dewisiadau allweddol y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu gwneud ynghylch ffurf gyffredinol iteriad nesaf y Rhaglen. Yn benodol, mae'n edrych ar rai o'r heriau o gydbwyso gwahanol ddyheadau ac uchelgeisiau cyfiawnder cymdeithasol er mwyn lleihau allyriadau carbon yn sylweddol ledled Cymru, ac effeithiolrwydd dull cyflawni ar sail ardal.

## Bydd angen i Lywodraeth Cymru ailystyried y mesurau a gynigwyd o ystyried ei huchelgais o leihau allyriadau carbon

1.2 Cynlluniwyd cynlluniau Nyth ac Arbed â'r nod o leihau biliau ynni yr aelwydydd sydd fwyaf tebygol o brofi tlodi tanwydd drwy sefydlu mesurau effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys systemau gwresogi newydd pan fo hynny'n briodol, yn y cartrefi sydd lleiaf effeithlon o ran ynni. Mae Llywodraeth Cymru yn contractio'r gwaith o reoli'r cynlluniau i'w 'Rheolwyr Cynllun'. Arbed am Byth yw hyn ar gyfer Arbed a Nwy Prydain ar gyfer Nyth[1].

1.3 Cynllun ar sail ardal a ddechreuodd yn 2009 oedd Arbed. I ddechrau, roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal iteriad presennol y cynllun rhwng mis Mai 2018 a mis Mai 2021, gyda chyllideb gyfan o £46 miliwn a dewis o estyn y contract am hyd at ddwy flynedd arall. Estynnodd y cynllun tan fis Tachwedd 2021, ond mae'r contract wedi dod i ben erbyn hyn (**paragraff 1.31**). Penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio ag estyn y contract ymhellach ac mae'n gweithio drwy drefniadau cau contractau gyda'r Rheolwr Cynllun. Nid yw wedi penderfynu beth, os o gwbl, a fydd yn disodli'r cynllun. Cynllun a arweinir gan y galw a ddechreuodd yn 2011 yw Nyth. Dechreuodd iteriad presennol y cynllun ym mis Ebrill 2018 ac mae'n rhedeg tan fis Mawrth 2023 i ddechrau, gyda chyllideb gyfan o £90 miliwn.

1 Hefyd, ceir llinell cyngor ar ynni ar gyfer Nyth, sy'n rheoli atgyfeiriadau i'r cynllun yn ogystal â darparu cyngor. Mae'r gwasanaeth hwn wedi ei isgontractio i'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Nid ydym wedi canolbwyntio ar yr agwedd hon ar wasanaeth Nyth yn rhan o'r archwiliad hwn.

1.4 Noda **Arddangosyn 1** feini prawf cymhwysedd y ddau gynllun. Yn ein hadroddiad 2019 ar dlodi tanwydd, gwnaethom nodi fod llawer o aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd nad ydynt yn gymwys ar gyfer Nyth a'i bod yn bosibl nad ydynt yn byw mewn ardal a gwmpesir gan Arbed. Un her benodol yw bod bron i hanner yr aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yn byw mewn eiddo a ddosbarthwyd yn eiddo band D, nad ydynt yn gymwys ar gyfer Nyth fel arfer ac nid oeddent yn brif darged i gynllun Arbed. Hefyd, nid yw mwy na dwy o bob tair aelwyd sy'n dlawd o ran tanwydd ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, felly nid ydynt yn gymwys ar gyfer Nyth, ac eithrio'r rhai sydd â chyflyrau iechyd penodol sydd hefyd ar incwm isel.

**Arddangosyn 1: meini prawf cymhwysedd ar gyfer cynlluniau Nyth ac Arbed**

| Cynllun | Meini prawf cymhwysedd[1] |
|---|---|
| Nest | Mae'n rhaid i aelwydydd fod yn derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd a bod â Thystysgrif Perfformiad Ynni2 a chanddi sgôr E, F neu G.<br>neu<br>Mae gan yr aelwydydd aelod sydd â chyflwr anadlol, cylchrediad y gwaed neu iechyd meddwl cronig, sydd o fewn y trothwyon incwm isel sy'n amrywio yn ôl math o aelwyd, a bod â sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni D, E, F neu G. |
| Arbed | Roedd yn bosibl i bob aelwyd mewn ardal a dargedwyd gan y Rheolwr Cynllun fod yn gymwys i gael cymorth. Nid oedd y contract yn atal tai cymdeithasol rhag cael cymorth. Fodd bynnag, nid oedd Llywodraeth Cymru na'r Rheolwr Cynllun yn disgwyl i dai cymdeithasol gael eu targedu. Roedd gofyniad gan Lywodraeth Cymru nad oedd buddsoddiadau angenrheidiol gan landlordiaid cymdeithasol (cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol) yn cael eu disodli gan y cyllid drwy'r cynllun.<br>Roedd yn ofynnol i'r Rheolwr Cynllun dargedu ardaloedd difreintiedig a chanddynt glystyrau o gartrefi â sgoriau Tystysgrif Perfformiad E, F neu G. |

Nodiadau:

1 Ar gyfer Nyth, rydym wedi canolbwyntio ar gymhwysedd ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni. Ceir llinell gyngor effeithlonrwydd ynni hefyd a ariennir trwy Nyth ac a reolir gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, y gall unrhyw un ei ffonio i gael cyngor.

2 Yr enw ar y system a argymhellir gan Lywodraeth y DU ar gyfer mesur sgôr effeithlonrwydd ynni anheddau preswyl yw Gweithdrefn Asesu Safonol (SAP). Mae'n defnyddio sgôr gyffredinol o 1-120, gydag 1 yn nodi'r lleiaf effeithlon o ran ynni a 120 yw'r uchaf. Yna caiff sgoriau SAP eu bandio i roi sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni A-G, gydag A yn nodi'r uchaf, ac G, yr isaf.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

1.5 Gall y ddau Reolwr Cynllun sefydlu ystod o fesurau sydd yr un fath mewn aelwydydd yn rhan o becyn gwella effeithlonrwydd ynni[2]. Gallai'r rhain fod yn un mesur neu'n gyfuniad o fesurau. Mae'r mesurau sydd ar gael yn amrywio'n fawr o ran cost a'r gwelliant effeithlonrwydd ynni y gallant ei gynhyrchu.

1.6 Mae cynllun Arbed wedi sefydlu ystod ehangach o fesurau na Nyth. Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2021, sefydlodd Nyth fesurau mewn 12,934 o gartrefi y cafodd 12,863 (99%) o'r rhain system wresogi newydd. Rhwng mis Hydref 2018 a mis Mawrth 2021, sefydlodd Arbed fesurau mewn 3,108 o gartrefi y cafodd 2,095 (67%) o'r rhain system wresogi newydd, gyda 1,777 (57%) o gartrefi yn cael paneli solar a 415 (13%) yn inswleiddio'r groglofft. O'i gymharu, ni osododd Nyth unrhyw baneli solar a gosododd inswleiddiwr croglofft mewn 827 (6%) eiddo.

1.7 Yn rhan o'r pecyn gwella effeithlonrwydd ynni, gall Rheolwyr Cynllun osod un brif system wresogi fesul aelwyd. O dan y ddau gynllun, pan osodir prif system wresogi, bu'n un sy'n rhedeg ar danwydd ffosil yn bennaf, a hynny'n nwy naturiol ym mwyafrif yr achosion (**Arddangosyn 2**).

2 Mae'r mesurau effeithlonrwydd ynni yn amrywio o fesurau cymharol isel sy'n cynhyrchu gwelliannau effeithlonrwydd ynni llai megis bylbiau ynni isel hyd at fesurau cost uchel megis systemau gwresogi canolog newydd a all gynhyrchu gwelliannau mwy sylweddol. Cynhelir asesiad i argymell y mesurau effeithlonrwydd ynni sydd fwyaf tebygol o wella effeithlonrwydd ynni cyffredinol y tŷ. Ar gyfer cynllun Arbed, cynhalid yr asesiad gan asesydd annibynnol. Ar gyfer cynllun Nyth, fe'i cynhelir gan gyflogai Nwy Prydain.

### Arddangosyn 2: prif systemau gwresogi a osodwyd gan Nyth ac Arbed fesul math o danwydd

| | Cynllun Nest | | Cynllun Arbed | |
|---|---|---|---|---|
| **Math** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Nwy naturiol | 10,408 | 80.9 | 1,976 | 94.3 |
| Olew | 1,565 | 12.2 | 75 | 3.5 |
| Trydan | 583 | 4.5 | 35 | 1.6 |
| Nwy petrolewm hylifol | 260 | 2.0 | 9 | 0.4 |
| Pympiau gwres ffynhonnell aer | 3 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Tanwydd solet | 44 | 0.3 | 0 | 0.0 |
| Cyfanswm | 12,863 | 100 | 2,095 | 100 |

Nodiadau:

1 Oherwydd mai ym mis Hydref 2018 y dechreuodd y ddarpariaeth, o fis Hydref 2018 i fis Mawrth 2021 y mae'r ffigurau ar gyfer Arbed. O fis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2021 y mae'r ffigurau ar gyfer Nyth.
2 Nid yw'r ffigurau'n adio i 100% oherwydd eu bod wedi eu talgrynnu.

Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru a ddadansoddwyd gan Archwilio Cymru

1.8 Nid yw'r ddibyniaeth drwm ar ddisodli boeleri tanwydd ffosil yn gynaliadwy. Er bod disodli boeler nwy ag un mwy effeithlon yn sicrhau rhywfaint o arbedion carbon, mae hyd yn oed boeler tanwydd ffosil effeithlon yn cynhyrchu symiau sylweddol o garbon. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol mai cyfyngedig yw cyfraniad y cynlluniau tuag at y broses o leihau allyriadau carbon, ond nid yw'n gallu mesur yr union effeithiau'n llawn oherwydd problemau gydag ansawdd y data (**paragraff 2.16**).

1.9 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i allyriadau carbon sero-net erbyn 2050, a tharged interim o leihau allyriadau carbon 63% yng Nghymru erbyn 2030. Mae llywodraeth y DU wedi nodi ei bwriad i ddiddymu'r holl osodiadau boeleri nwy yn raddol erbyn 2030. Yn ddiweddar, argymhellodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol[3] waharddiad ar wresogi tanwydd ffosil newydd ar gyfer pob cartref erbyn 2030 fan hwyraf.

1.10 Mae'n amlwg felly y bydd angen i gam nesaf y rhaglen fod yn un drosiannol sy'n newid o foeleri nwy i dechnolegau gwyrddach. Mae hyn yn debygol o olygu mwy o ddefnydd o fesurau megis pympiau gwres ffynhonnell aer, sydd ond wedi eu gosod deirgwaith (pob un ohonynt ar gynllun Nyth) rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2021 (**Arddangosyn 2**).

1.11 Ceir goblygiad sylweddol o ran y costau o newid i'r technolegau hyn. Er y gallai mwy o alw arwain at brisiau is, mae pympiau gwres ffynhonnell aer yn costio tua tair i bum gwaith[4] yn fwy na boeler nwy ar hyn o bryd. Felly, pe byddent yn cael eu defnyddio'n ehangach, byddai llai o gartrefi'n gallu cael cymorth oni bai fod cyllid ychwanegol ar gael neu fod costau'n lleihau'n sylweddol. Yn rhan o fuddsoddiad ehangach mewn ôl-osod cartrefi ledled Cymru, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi galw am ddyblu gwariant Llywodraeth Cymru ar y Rhaglen Cartrefi Clyd[5]. Fodd bynnag, gallai hyd yn oed y lefel honno o gynnydd mewn cyllid weld llai o aelwydydd yn cael cymorth yn y dyfodol o'i gymharu â'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'r Comisiynydd yn awgrymu y dylai llywodraeth y DU ddarparu cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

1.12 Gallai unrhyw gynlluniau yn y dyfodol sy'n symud y pwyslais tuag at ddefnyddio technolegau gwyrddach wynebu her wrth argyhoeddi deiliaid tai i dderbyn dewisiadau eraill yn hytrach na systemau gwresogi traddodiadol. Bydd angen rhywfaint o newid ymddygiad hefyd er mwyn i'r cyhoedd ymgyfarwyddo â defnyddio technolegau newydd.

3 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Rhaglen Lywodraethu Addas ar gyfer y Dyfodol, Mai 2021

4 Dadansoddiad o bris cyfartalog pwmp gwres ffynhonnell aer a gyflenwir gan y ddau Reolwr Cynllun o'i gymharu â phris cyfartalog boeler nwy.

5 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cartrefi addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod, Gorffennaf 2021

## Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn gliriach ynghylch diben craidd Nyth neu unrhyw gynllun sy'n ei olynu a phwy y mae'n bwriadu ei helpu

1.13 Trwy gyfyngu cymhwysedd i'r cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni, nod Llywodraeth Cymru oedd sicrhau bod cynllun Nyth yn canolbwyntio ei adnoddau cyfyngedig ar y rhai sydd â'r risg mwyaf o brofi tlodi tanwydd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y dylai'r Rheolwr Cynllun ddehongli sgôr effeithlonrwydd ynni tŷ mewn ffordd sy'n caniatáu i fwy o bobl fod yn gymwys i gael cymorth, gyda'r posibilrwydd o gynnwys llawer nad oeddent yn dlawd o ran tanwydd.

1.14 Er mwyn asesu a yw aelwyd yn gymwys i gael cymorth drwy Nyth, mae'r Rheolwr Cynllun yn cynnal asesiad o effeithlonrwydd ynni cyffredinol presennol eiddo. Pan fo boeler wedi torri mewn aelwyd, nid yw wedi ei drwsio (**paragraff 2.11**). I bob pwrpas, mae'r Rheolwr Cynllun yn tybio bod gwresogyddion trydan yn cynhesu'r tŷ[6]. O ganlyniad i hynny, bydd sgôr perfformiad ynni'r cartref yn gostwng yn sylweddol o'i gymharu â'r sgôr cyn i'r boeler dorri. Mae hyn yn golygu bod aelwydydd nad oeddent yn gymwys pan oedd eu boeler yn gweithio wedi dod yn gymwys i gael boeler newydd oherwydd bod sgôr effeithlonrwydd ynni eu tŷ yn D neu'n uwch. Nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu dweud wrthym faint o aelwydydd a gafodd foeler newydd o dan yr amgylchiadau hyn.

1.15 Trwy ddarparu boeler newydd ar gyfer aelwydydd tlotach nad oes ganddynt ddŵr poeth na gwres, mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu nod cyfiawnder cymdeithasol. Fodd bynnag, nid oedd helpu aelwydydd tlotach â boeleri wedi torri erioed yn nod craidd i Nyth. Cynlluniwyd y cynllun i leihau ac i liniaru effeithiau tlodi tanwydd.

1.16 Mae perygl bod y newid tuag at ganolbwyntio ar foeleri newydd yn dargyfeirio ymdrechion oddi wrth geisio cyrraedd yn weithredol aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd. Ni fydd gan fwyafrif y bobl sy'n profi tlodi tanwydd foeler wedi torri ac felly nid oes angen dybryd arnynt i geisio cymorth gan Nyth. Er bod digon o alw gan bobl sydd â boeleri wedi torri i gyflawni targedau'r cynllun, ychydig o gymhelliant sydd gan Lywodraeth Cymru a'r Rheolwr Cynllun i chwilio am yr aelwydydd hyn sy'n dlawd o ran tanwydd.

1.17 Mae perygl hefyd nad oes gan bobl fynediad teg at y cynllun oherwydd y ffordd y mae wedi datblygu. Efallai y bydd rhai pobl sydd â boeleri wedi torri sy'n byw mewn cartref mwy effeithlon ac sy'n darllen y meini prawf cymhwysedd gan gredu'n rhesymol nad ydynt yn gymwys.

6 Dim ond un o ddau ddewis y mae meddalwedd y diwydiant a ddefnyddir gan Reolwyr Cynllun sy'n asesu sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni boeleri yn ei chaniatáu: mae'r boeler yn gweithio, neu nid yw'r boeler yn gweithio. Os dewisir yr opsiwn olaf, mae'r meddalwedd yn tybio bod y cartref yn cael ei wresogi'n drydanol.

1.18 Mae'r dull o ddehongli'r sgôr effeithlonrwydd ynni hefyd wedi cael effaith sylweddol ar ganlyniadau'r cynllun a gofnodwyd. Mae wedi golygu bod aelwydydd nad oeddent yn profi tlodi tanwydd cyn i'w boeler dorri, wedi eu hystyried yn rhai sy'n dlawd o ran tanwydd oherwydd bod y sgôr perfformiad ynni wedi ei hisraddio. Felly, roeddent yn cael eu cyfrif fel rhai a oedd yn cael eu tynnu allan o dlodi tanwydd gan y cynllun. Roedd hefyd yn golygu bod y sgôr sylfaenol ar gyfer effeithlonrwydd ynni'r cartref wedi ei datchwyddo'n artiffisial, sy'n golygu bod yr enillion effeithlonrwydd ynni 'cyn ac ar ôl' a gofnodwyd, a'r lleihad carbon yn sgil yr ymyriad, wedi eu gorbwysleisio'n sylweddol. Mae'r sefyllfa hon yn helpu i egluro pam, yn ein hadroddiad 2019 ar dlodi tanwydd, y gwelsom fod Nyth yn adrodd gwelliannau effeithlonrwydd ynni llawer uwch na rhaglenni tebyg eraill.

1.19 Ar gais Llywodraeth Cymru, ym mis Ebrill 2021, newidiodd y Rheolwr Cynllun y fethodoleg ar gyfer adrodd ar effaith gosodiadau fel y bydd y manteision a gofnodir yn fwy cywir ac yn unol â'r ffordd y mae Rheolwr Cynllun Arbed yn adrodd ei gynnydd. Bydd hyn yn golygu, os nad yw boeler cartref yn gweithio, y bydd y Rheolwr Cynllun yn asesu Tystysgrif Perfformiad Ynni cychwynnol yr aelwyd yn seiliedig ar y sefyllfa cyn i'r boeler dorri. Er bod y newid hwn wedi ei wneud mewn cysylltiad ag adrodd am gynnydd effeithlonrwydd ynni, bydd cymhwysedd ar gyfer y cynllun yn dal i fod yn seiliedig ar y sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni sydd wedi ei hisraddio.

1.20 Wrth ddisodli cynllun Nyth yn y dyfodol, credwn fod angen i Lywodraeth Cymru fod yn gliriach o ran diben craidd y cynllun. Yn benodol, mae angen iddi fod yn glir pa broblem y mae'n ceisio ei datrys: a yw'n gynllun i fynd i'r afael â thlodi tanwydd neu'n gynllun i ddisodli boeleri sydd wedi torri ar gyfer pobl sydd ar incwm isel. Efallai y bydd angen dau ddull gweithredu gwahanol ar Lywodraeth Cymru, sydd â meini prawf, mesurau marchnata a pherfformiad gwahanol, os yw'n dymuno mynd i'r afael â'r ddwy broblem hyn.

## Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried ymarferoldeb dull ar sail ardal Arbed yn y dyfodol o ystyried ei fod yn tangyflawni

### Mae cyfyngiadau'r dull ar sail ardal yn golygu bod Arbed wedi ei chael hi'n anodd nodi'r aelwydydd yr oedd i fod i'w helpu

1.21 Yn ein gwaith blaenorol ar dlodi tanwydd, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith bod cynllun presennol Arbed wedi wynebu tanwariant sylweddol ym mlwyddyn gyntaf y contract. Gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio'n llawn y rhesymau y tu ôl i'r tanwariant er mwyn cadarnhau a oedd problemau sylfaenol â'r dull ar sail ardal. Parhaodd y tangyflawniad ym mlynyddoedd dau a thri y contract, gan arwain at lai o gartrefi'n cael eu cefnogi na'r bwriad (**paragraff 1.27**).

1.22 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi adolygu'n ffurfiol a yw'r dull ar sail ardal wedi achosi problemau sylfaenol o ran yr hyn a gyflawnir gan Arbed, ond mae wedi comisiynu gwerthusiad cyffredinol o'r cynllun y disgwylir ei gyhoeddi yn gynnar yn 2022. Roedd rhai ffactorau eraill a gyfrannodd at oedi, gan gynnwys Storm Dennis ym mis Chwefror 2020 a phandemig COVID-19 pan ohiriodd y Rheolwr Cynllun yr holl waith am ryw pedwar mis. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai'r dull ar sail ardal o fynd i'r afael â thlodi tanwydd fod wedi bod yn ffactor cyfrannol sylweddol.

1.23 Mae'r dull seiliedig ar ardal yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr Cynllun weithio gydag awdurdodau lleol i nodi clystyrau daearyddol o gartrefi sydd fwyaf tebygol o brofi tlodi tanwydd. Mae'n ystyried amrywiaeth o setiau data, gan gynnwys lefelau amddifadedd a sgôr perfformiad ynni cyffredinol eiddo.

1.24 Ar ddechrau'r contract ym mis Mai 2018, roedd Llywodraeth Cymru yn dymuno i'r Rheolwr Cynllun dargedu cartrefi â'r effeithlonrwydd ynni gwaethaf (sgoriau Tystysgrif Perfformiad Ynni E, F ac G) a sicrhau hefyd gynnydd effeithlonrwydd ynni hyd at Dystysgrif Perfformiad Ynni C neu uwch. Roedd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr Cynllun sicrhau cynnydd hyd at Dystysgrif Perfformiad Ynni C o Dystysgrif Perfformiad Ynni E, F neu G ar gyfer 80% o'r holl gartrefi a gefnogwyd. Fodd bynnag, yn ymarferol, roedd y Cynllun yn ei chael yn anodd dod o hyd i glystyrau o gartrefi a oedd yn bodloni'r meini prawf gan fod mewn ardal ddifreintiedig, a chan fod â sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni E, F neu G y gellid eu gwella hyd at sgôr C o fewn y cap gwariant. Rhwng mis Mai 2018 a mis Medi 2019, dim ond 9% o'r cartrefi a oedd yn derbyn mesurau effeithlonrwydd ynni a wellwyd gan gyflawni sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni o C neu uwch o fan cychwyn E, F neu G. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa wedi gwella yn y cyfamser (**paragraff 1.29**).

1.25 Rhan o'r broblem oedd diffyg data cyfredol ar effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru. I ddechrau, nododd y Rheolwr Cynllun glystyrau posibl o gartrefi a chanddynt sgoriau Tystysgrif Perfformiad Ynni E, F neu G, drwy ddefnyddio data llywodraeth y DU, sy'n dangos sgoriau Tystysgrif Perfformiad Ynni tai a wnaed yn bennaf pan werthwyd y tai ddiwethaf. Fodd bynnag, cyn gwneud unrhyw waith mewn eiddo, roedd yn ofynnol i'r Rheolwr Cynllun gynnal ei asesiad ynni cartref ei hun er mwyn cael y sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni gyfredol. Ar y cam hwn, canfuwyd bod gan lawer o gartrefi a nodwyd i ddechrau sgoriau effeithlonrwydd ynni uwch oherwydd gwelliannau a oedd eisoes wedi eu gwneud. Yn fwy cyffredinol, oherwydd diffyg Tystysgrif Perfformiad Ynni diweddar ar gyfer llawer o gartrefi, nid oedd yn glir ychwaith faint o glystyrau cartrefi â sgoriau Tystysgrif Perfformiad Ynni E, F neu G sy'n dal i fodoli ledled Cymru.

**Ceisiodd Llywodraeth Cymru wella'r ddarpariaeth drwy ddiwygio contract Arbed, ond mae'r cynllun yn dal i dangyflawni ac mae wedi elwa ar lai o arian yr UE na'r disgwyl**

1.26 Gwnaethom argymell yn ein hadroddiad blaenorol ar dlodi tanwydd y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar ddewisiadau ar gyfer newid y cydbwysedd cyllido rhwng Nyth ac Arbed pe byddai problemau sylfaenol yn ymwneud â'r dull ar sail ardal. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi symud cyllid i Nyth oherwydd nad oedd Nyth yn gallu cynyddu nifer y cartrefi yr oedd yn eu cefnogi yn y capasiti presennol.

1.27 Ailbroffiliodd Llywodraeth Cymru y targedau cyflawni er mwyn ceisio gwella darpariaeth Arbed. Dechreuodd y cynllun yn araf ac ailbroffiliodd Llywodraeth Cymru'r targed ar gyfer blwyddyn un â'r bwriad o wneud iawn am y diffyg yn ystod blynyddoedd dau a thri. Fodd bynnag, ar ôl ailbroffilio'r targedau ymhellach, daeth yn fwyfwy amlwg i Lywodraeth Cymru na fyddai Arbed yn gallu gwneud iawn am y diffyg a gronnwyd. Ym mis Rhagfyr 2019, cytunodd Llywodraeth Cymru â'r Rheolwr Cynllun ar newid i'r contract. Roedd hyn yn lleihau'r disgwyliadau a roddwyd ar y Rheolwr Cynllun mewn dwy ffordd:

- bu gostyngiad o 825 yn nifer y cartrefi sydd i'w targedu yn ystod oes y contract, o 6,325 i 5,500, a bu gostyngiad cyfatebol i'r ffioedd rheoli sy'n daladwy i'r Rheolwr Cynllun; a
- disodlwyd y targed mewn cysylltiad â sgoriau Tystysgrif Perfformiad Ynni â graddfa o uchelgeisiau symudol (**Arddangosyn 3**).

1.28 Er bod y Rheolwr Cynllun yn dal i orfod ceisio targedu cartrefi E, F, G a'u gwella hyd at C, ni chawsant eu dwyn i gyfrif o'u cymharu â'r targed o 80% mwyach (**paragraff 1.24**), y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bellach ei bod wedi bod yn rhy optimistaidd. Fodd bynnag, bu rhaid i'r Rheolwr Cynllun geisio rhoi cymorth o hyd i o leiaf 51% o'r cartrefi sydd â sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni E, F neu G. Bu gwahaniaeth sylweddol yn lefel y gwelliant disgwyliedig i effeithlonrwydd ynni cartref rhwng brig a gwaelod y raddfa symudol. Po isaf yr eir i lawr y raddfa welliant, po isaf yw'r gwerth am arian a po leiaf yw'r budd i berchennog y tŷ.

**Arddangosyn 3: uchelgeisiau diwygiedig ar gyfer yr hyn a gyflawnir gan Arbed, o fis Rhagfyr 2019**

**Bydd y Rheolwr Cynllun yn canolbwyntio'r gwaith o gyflawni'r cynllun ar y cartrefi sy'n perfformio waethaf (G/F/E) yn bennaf, yn yr ardal a ddewiswyd, gan ddefnyddio camau blaenoriaethu yn y drefn ganlynol:**

a Targedu cartrefi cymwys sydd â sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni G/F/E, i'w gwella i sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni C â mesurau cost-effeithiol a phriodol.

b Targedu cartrefi cymwys sydd â sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni G/F/E, i'w gwella gan o leiaf un band Tystysgrif Perfformiad Ynni (hyd at sgôr C) â mesurau cost-effeithiol a phriodol.

c Targedu cartrefi Tystysgrif Perfformiad Ynni G/F/E cymwys y mae cyllid partneriaeth ar gael ar eu cyfer a gellid gwella'r eiddo o leiaf ddeg pwynt Gweithdrefn Asesu Safonol â mesurau cost-effeithiol a phriodol.

ch Targedu cartrefi cymwys sydd â sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni D, i'w gwella gan un band Tystysgrif Perfformiad Ynni â mesurau cost-effeithiol a phriodol.

d Targedu cartrefi cymwys sydd â sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni D y gellid eu gwella o leiaf ddeg pwynt Gweithdrefn Asesu Safonol â mesurau cost-effeithiol a phriodol a ffurfio lleiafrif o gartrefi yr ymdrinnir â nhw yn y cynllun Arbed perthnasol[1].

dd Ni ddylid ystyried cartrefi nad ydynt yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau uchod yn rhai sy'n gymwys ar gyfer cynllun Arbed oni bai fod y Rheolwr Cynllun yn cael cyfarwyddyd y Cleient cyn ymdrin â nhw.

Noder:

1 Yn y cyd-destun hwn, mae'r cyfeiriad at gynllun Arbed yn ymwneud ag ardal ddaearyddol a dargedir ac nid y cynllun yn ei gyfanrwydd.

Ffynhonnell: Hysbysiad Newid Contract Llywodraeth Cymru

1.29 Rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2021, cynyddodd cyfran y cartrefi a dderbyniodd fesurau effeithlonrwydd ynni a gwella, o sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni cychwynnol o E, F neu G, i C neu uwch, o 9% i 21% o'i gymharu â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Medi 2019. Fodd bynnag, roedd cyfran gyffredinol y cartrefi a gyflawnodd y cynnydd o Dystysgrif Perfformiad Ynni E, F neu G yn dal i fod yn sylweddol is na'r targed cychwynnol o 80%.

1.30 Yn y cyfamser, cyfyngedig oedd effaith y newid i'r contract ar ddarpariaeth gyffredinol Arbed. Pan newidiwyd y contract ym mis Rhagfyr 2019, ni phennodd Llywodraeth Cymru darged diwygiedig ar gyfer 2019-20. Fodd bynnag, pennodd darged diwygiedig o 1,700 ar gyfer 2020-21 (**Arddangosyn 4**). Roedd hyn yn golygu, er mwyn cyflawni'r targed diwygiedig cyffredinol o 5,500 o aelwydydd, y byddai Arbed wedi gorfod gosod mesurau mewn 3,655 o gartrefi yn ystod 2019-20. Ym mis Rhagfyr 2019, roedd Arbed wedi cefnogi llai na 2,000 o aelwydydd. Rydym yn dal yn ansicr pam yr oedd Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai Arbed yn cyflawni cymaint o weithgarwch yn ystod misoedd olaf y flwyddyn ariannol. Erbyn diwedd Mawrth 2021, roedd y Rheolwr Cynllun yn dal wedi methu cyflawni'r targed, gyda diffyg o 43% (2,378 eiddo) o'i gymharu â'r targed contractiol diwygiedig o 5,500 o gartrefi.

**Arddangosyn 4: cartrefi y darparwyd mesurau effeithlonrwydd ynni ar eu cyfer drwy gynllun Arbed, Mai 2018 i Fawrth 2021**

| Blwyddyn | Targed cychwynnol | Targed blynyddol diwygiedig ar ôl derbyn hysbysiad newid contract ym mis Rhagfyr 2019 | Yr hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd | % o dan y targed (cychwynnol neu ddiwygiedig fel y bo hynny'n berthnasol) |
|---|---|---|---|---|
| 2018-2019[1] | 1,397 | Amh | 145 | 90% |
| 2019-2020 | 2,679 | Amh[2] | 1,945 | 27% |
| 2020-2021 | 2,249 | 1,700 | 1,032 | 39% |
| Targed cyffredinol | 6,325 | 5,500 | 3,112 | 43% |

Nodiadau:

1 Dim ond 11 mis y mae 2018-19 yn ei chynnwys oherwydd bod y contract wedi dechrau ym mis Mai 2018, er na ddechreuodd Arbed gyflawni tan fis Hydref 2018.

2 Ni phennwyd targed ffurfiol ar gyfer blwyddyn 2019-20 ond y ffigur diofyn fyddai 3,655 ar sail y targed cyflawni diwygiedig cyffredinol o 5,500 tynnu targed 2020-21, sef 1,700, a'r 145 a gyflwynwyd yn 2018-19.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

1.31 Ym mis Tachwedd 2020, ychwanegodd Llywodraeth Cymru chwe mis at gontract Arbed, gan ei wneud yn weithredol hyd at fis Tachwedd 2021 yn hytrach na mis Mai 2021, sef y dyddiad gorffen cychwynnol. Mae'r contract wedi dod i ben bellach. Nod Llywodraeth Cymru oedd y byddai'r estyniad, ynghyd â'r newidiadau cynharach i'r contract, yn caniatáu i'r Rheolwr Cynllun fod cyn agosed at y targed cyflawni cyffredinol diwygiedig â phosibl. Nod y Rheolwr Cynllun oedd rhoi cymorth i gynifer o gartrefi ag y gallai yn ystod cyfnod estynedig y contract, gan barhau i reoli effaith pandemig COVID-19.

1.32 Ar 31 Awst 2021, roedd tua 3,704 o gartrefi wedi derbyn cymorth. Gyda dim ond dau fis o'r contract yn weddill, awgrymodd hyn[7] y byddai'r Rheolwr Cynllun ymhell oddi wrth gyflawni'r targed cyflawni diwygiedig ar ddiwedd cyfnod estynedig y contract. Nid oedd ffigurau y tu hwnt i 31 Awst ar gael ar adeg drafftio'r adroddiad hwn.

1.33 Cefnogwyd cynllun Arbed yn rhannol gan ddyraniad o gyllid yr UE: £22.8 miliwn o gyfalaf a £0.4 miliwn o refeniw[8]. Ym mis Ebrill 2021, dim ond £6.6 miliwn o gyllid cyfalaf yr UE yr oedd Llywodraeth Cymru wedi ei godi. Ym mis Ebrill 2021, penderfynodd Llywodraeth Cymru dynnu £7.5 miliwn o gyllid yr UE yn ôl o ganlyniad i'r gostyngiad mewn gweithgarwch.

1.34 Mae'r sefyllfa alldro derfynol ar gostau cynllun Arbed a'r cydbwysedd rhwng cyllid domestig a chyllid yr UE i'w cadarnhau o hyd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gwario tua £19.5 miliwn o'i chyllideb ddomestig wreiddiol o £23 miliwn, gan godi ychydig dros £15 miliwn o gyllid yr UE. Mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y gall hawlio'r £8.7 miliwn sy'n weddill o gyllid yr UE yn ôl-weithredol yn rhannol ar gyfer prosiectau Arbed a gwblhawyd a ariannwyd yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru i ddechrau.

7 Ffigur dros dro oedd hwn ar adeg drafftio'r adroddiad. Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru fod hyd at 350 o gartrefi eraill wedi derbyn cymorth ond nad oedd y Rheolwr Cynllun wedi anfonebu Llywodraeth Cymru.

8 Defnyddir y rhan fwyaf o'r grant refeniw o £0.4 miliwn i dalu am rai o reolwyr cynllun Arbed yn Llywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi codi tua £0.2 miliwn hyd at fis Ebrill 2021.

# Trefniadau contractio

02

# 2. Mae angen cryfhau contractau â darparwyr a goruchwyliaeth gan swyddogion er mwyn sicrhau gwerth am arian

2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn edrych ar sut mae Llywodraeth Cymru yn rheoli trefniadau contractio yn gyffredinol ar gyfer cynlluniau Nyth ac Arbed yn eu ffurfiau presennol. Yn benodol, mae'n edrych ar sut y gallai contractau fod yn gliriach yn y dyfodol a sut y gellir cryfhau y trefniadau goruchwylio contractau a sicrhau ansawdd.

## Mae angen tynhau contractau yn y dyfodol er mwyn cysoni costau a nodi disgwyliadau ar gontractwyr gyda'r bwriad o annog gwell gwerth am arian

### Meincnodi costau mesurau effeithlonrwydd ynni

2.2 Mae'r mesurau effeithlonrwydd ynni y gall y ddau gynllun eu gosod yn union yr un fath ac mae'n rhaid eu gosod nhw yn unol â'r un safonau diogelwch. Fodd bynnag, gall y cynhyrchion gwirioneddol a gyflenwir ac a osodir fod yn wahanol. Er na fyddem yn disgwyl i'r prisiau fod yr un fath o reidrwydd, ceir rhai gwahaniaethau sylweddol rhwng yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei dalu i'r ddau Reolwr Cynllun i gyflenwi a gosod yr un mesurau effeithlonrwydd ynni mewn mathau o gartrefi a ddiffinnir ymlaen llaw. I'r eithaf, ceir gwahaniaeth o dros £6,000 mewn pris ar gyfer yr un mesur. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith i archwilio'r rhesymau dros yr amrywiadau hyn i'w bodloni ei hun ei bod yn cael gwerth am arian. Mae **Arddangosyn 5** yn rhoi trosolwg o sut yr oedd y prisiau'n amrywio rhwng y Rheolwyr Cynllun.

**Arddangosyn 5: amrywiad ym mhrisiau cyflenwi mesurau effeithlonrwydd ynni y Rheolwyr Cynllun**

| Amrywiad mewn prisiau | Cyfrif | Graddfa'r amrywiad mewn prisiau |
|---|---|---|
| Mesurau pan yr oedd prisiau Rheolwr Cynllun Arbed yn ddrutach ar gyfer pob math o eiddo | 31 | £1 i £4,542 |
| Mesurau pan yr oedd prisiau Rheolwr Cynllun Nyth yn ddrutach ar gyfer pob math o eiddo | 14 | £10 i £5,753 |
| Mesurau pan yr oedd cost uchaf prisio y Rheolwr Cynllun ar gyfer pob math o eiddo yn amrywio | 8 | £1 i £6,300 |

Noder: y saith math o eiddo a ddiffinnir ymlaen llaw yw tŷ cymoedd y 1930au, tŵr fflatiau y 1970au, tŵr fflatiau isel-ganolig y 1950au ymlaen, tŷ pâr â ffrynt dwbl cyn 1930, eiddo wal geudod traddodiadol ar ôl 1945, bwthyn gwledig sengl a chartref mewn parc.

Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru a ddadansoddwyd gan Archwilio Cymru

2.3 Wrth dendro am Reolwyr Cynllun, gwahoddodd Llywodraeth Cymru gynigwyr â diddordeb i roi prisiau am y gwaith o gyflenwi a gosod ystod o'r un fath ac eang o fesurau effeithlonrwydd ynni ym mhob math o eiddo a ddiffinnir ymlaen llaw. Cymharodd Llywodraeth Cymru gostau rhwng ceisiadau tendro ar gyfer pob un o'r cynlluniau. Fodd bynnag, roedd y gymhariaeth yn gyfyngedig oherwydd y nifer fach o geisiadau a gafwyd[9]. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru gymharu'r prisiau a gynigiwyd yn y ceisiadau tendro â chostau'r farchnad er mwyn cael dealltwriaeth ehangach o'u rhesymoldeb.

2.4 Oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu contract Arbed yn hwyrach na chontract Nyth, roedd cyfle hefyd i gymharu costau rhwng y ceisiadau a gyflwynwyd ar gyfer contract Arbed a'r contract a osodwyd eisoes ar gyfer Nyth. Fodd bynnag, ni wnaeth Llywodraeth Cymru mo hynny.

2.5 Mae'r contract yn cynnwys trefniad rhannu elw. Bydd y Rheolwyr Cynllun yn rhannu 50:50 unrhyw elw blynyddol o'r naill gynllun neu'r llall sydd dros 6%. Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfran elw o £848,000 oddi wrth Reolwr Cynllun Nyth ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 a rhagwelir y bydd swm tebyg yn cael ei dalu i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21. Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfran elw o £393,000 oddi wrth Reolwr Cynllun Arbed ar gyfer 2019-20, ac ni ragwelir unrhyw gyfran elw ar gyfer 2020-21.

9 Cyflwynodd dau ymgeisydd dendrau ar gyfer pob cynllun.

## Y defnydd o fesurau goleuo a dŵr

2.6 Gall Rheolwyr Cynllun osod mesurau goleuo a mesurau dŵr, y maent yn cael ffi sefydlog amdanynt o dan y contract. Gosodwyd y mesurau o dan y ddau gynllun ond gosodwyd mwy ohonynt o dan gynllun Arbed. Ar eu pennau eu hunain, cymharol fach yw'r gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni cyffredinol a ddarperir i aelwyd gan y mesurau, ond maent yn ffurfio rhan o becyn gwella effeithlonrwydd ynni ehangach. Wrth osod mesurau goleuo, mae'n rhaid i'r Rheolwyr Cynllun ymgymryd â gwiriadau diogelwch manwl[10].

2.7 Gwnaethom ystyried pryderon a godwyd â'r Archwilydd Cyffredinol yn datgan bod Rheolwr Cynllun Arbed wedi gallu hawlio taliad llawn oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer mesurau goleuo a dŵr pan fo is-gontractwyr yn gosod bylbiau golau neu awyryddion ar dapiau, nad yw'n fwy nag ychydig funudau o waith[11]. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym i ddechrau fod y contract yn atal y Rheolwr Cynllun rhag hawlio pris llawn y contract am osod mesurau golau a dŵr oni bai ei fod wedi uwchraddio o leiaf 80% o'r holl oleuadau a 100% o'r holl allanfeydd dŵr. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae'r contract wedi ei ysgrifennu mewn gwirionedd yn caniatáu i Reolwyr Cynllun hawlio taliad llawn am osod un neu ddau o fylbiau neu awyryddion os yw gwneud hynny'n achosi i'r tŷ gyflawni'r targed o 80% neu 100%[12].

2.8 Darparodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad o nifer y bylbiau golau a osodwyd mewn cartrefi drwy gynllun Arbed yn rhan o becyn ehangach o fesurau effeithlonrwydd ynni (**Arddangosyn 6**). Mae'n dangos y bu 49 achos pan osodwyd un bwlb golau yn unig, a 73 achos o osod dau ohonynt. Cafodd ychydig dros hanner yr aelwydydd a wnaeth elwa ar y mesur hwn saith neu fwy o fylbiau golau ynni isel. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod y Rheolwr Cynllun wedi rhoi sicrwydd bod contractwyr wedi cynnal yr ystod lawn o wiriadau diogelwch. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Rheolwr Cynllun am unrhyw dystiolaeth ddogfennol i'r perwyl hwn.

10 Mae'n rhaid i berson cymwys, fel a ddiffinnir gan safonau'r diwydiant, gynnal cyfres o wiriadau diogelwch ar y cylchedau trydanol presennol yn gyntaf ac mae'n bosibl y bydd angen gwneud gwaith uwchraddio yn unol â safon berthnasol y diwydiant.

11 Mae awyryddion yn lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir, sy'n lleihau'r defnydd o ynni. Gallai hyn arwain at filiau llai ar gyfer cartrefi â mesuryddion dŵr.

12 Mae'r contract yn ei gwneud yn ofynnol bod mesurau goleuo yn cael eu gosod yn unol â safon y diwydiant. Cysylltodd Llywodraeth Cymru â'i harbenigwyr technegol, y Sefydliad Ymchwil Adeiladu, i gadarnhau'r dehongliad o'r safon. Mae'n rhaid uwchraddio unrhyw ffitiadau golau nad oes goleuadau ynni isel eisoes wedi eu gosod ynddynt i fodloni'r rheol 80%.

**Arddangosyn 6: aelwydydd yn derbyn mesurau goleuo drwy Arbed yn rhan o becyn ehangach o fesurau effeithlonrwydd ynni, Hydref 2018 i Fawrth 2021**

| Nifer y bylbiau golau a osodwyd | Nifer yr aelwydydd | % yr aelwydydd |
|---|---|---|
| 1 | 49 | 3.6% |
| 2 | 73 | 5.3% |
| 3 | 119 | 8.7% |
| 4 | 136 | 9.9% |
| 5 | 113 | 8.2% |
| 6 | 132 | 9.6% |
| 7+ | 751 | 54.7% |
| Cyfanswm | 1,373 | 100% |

Noder: roedd 1,729 o achosion pan ddefnyddiwyd mesurau goleuo o dan gynllun Arbed. Fodd bynnag, mewn 356 o'r achosion hynny, dywedodd y Rheolwr Cynllun wrth Lywodraeth Cymru nad oedd y data'n cael eu cadw ar nifer y bylbiau golau unigol a osodwyd.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

2.9 Roedd mesurau dŵr wedi eu gosod cyfanswm o 1,597 o weithiau hyd at fis Mawrth 2020 o dan gynllun Arbed. Mae'r math o fesurau dŵr yn amrywio, gan ddibynnu a oes gan y cartref foeler cyfuno ai peidio. Os oes ganddo, yna caiff un ddyfais ei gosod ar y boeler, heb osod unrhyw awyrydd ar y tapiau. Gosodwyd mwyafrif y mesurau dŵr mewn cartrefi a chanddynt foeler cyfuno[13]. Ar gyfer cartrefi nad oedd boeler cyfuno wedi ei osod ynddynt, gallai Rheolwyr Cynllun osod awyryddion ar dapiau. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu cadarnhau a oedd achosion o osod un neu ddau o awyryddion yn unig â'r nod o achosi'r tŷ i gyflawni'r targed uwchraddio o 100%.

13 Yn 2018-19, gosodwyd dyfeisiau arbed cyfuno 99 o weithiau ac awyryddion 29 o weithiau, ac yn 2019-20, gosodwyd dyfeisiau arbed cyfuno 1,288 o weithiau ac awyryddion 181 o weithiau.

### Atgyweirio boeleri

2.10 Gall Rheolwyr Cynllun atgyweirio boeleri gradd A neu B hyd at gost o £250. Fodd bynnag, nid yw'r Rheolwr Cynllun wedi atgyweirio unrhyw foeleri hyd yma. Nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi gwybodaeth inni am faint o foeleri y gellid bod wedi eu hatgyweirio ond a ddisodlwyd yn lle hynny, a'r costau ychwanegol yr aed iddynt. Ni allai roi gwybodaeth fanwl inni ychwaith am oedran y boeleri a ddisodlwyd gan y Rheolwyr Cynllun. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod Rheolwyr Cynllun wedi rhoi sicrwydd nad oeddent wedi disodli unrhyw foeleri a oedd yn llai na thair blwydd oed.

2.11 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym nad yw Rheolwyr Cynllun yn atgyweirio boeleri o dan y cynlluniau[14] oherwydd dim ond unwaith y gall aelwyd gael cymorth o dan y naill gynllun neu'r llall. Er y byddai gwarant yn cwmpasu atgyweiriadau cychwynnol pe byddai boeler yn torri am reswm gwahanol, mae'n bosibl y gallai deiliad y tŷ fod heb wres na dŵr poeth, ac methu cael rhagor o gymorth.

2.12 Mae'n bosibl bod disodli boeleri yn cynnig gwerth am arian gwaeth na'u hatgyweirio nhw. Mae hwn yn fater penodol, â'r nod yw osgoi gadael aelwydydd heb wres na dŵr poeth, er ei bod yn bosibl nad ydynt yn dlawd o ran tanwydd (**paragraff 1.15**). Pan fo disodli boeleri yn costio mwy na'u hatgyweirio nhw, mae'n anochel bod llai o gyllid cyffredinol ar gael i gefnogi deiliaid tai eraill. Fodd bynnag, bydd angen cydbwyso rhinweddau atgyweirio boeleri tanwydd ffosil yn gynyddol hefyd o'u cymharu â'r manteision posibl o gyflawni lleihad mewn carbon gan eu disodli â thechnoleg fyw gwyrdd ac arall.

2.13 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi ystyried annog Rheolwyr Cynllun i atgyweirio mwy o foeleri. Fodd bynnag, mae wedi penderfynu bod y manteision tymor hirach i aelwyd, o gael system newydd sy'n llai tebygol o dorri, yn drech na'r arbedion cost posibl. Nododd swyddogion hefyd fod pobl ar incwm isel, yn ystod y gaeaf, wedi gallu gwneud cais i'r Gronfa Cymorth Dewisol am grant o hyd at £120 i atgyweirio boeler sydd wedi torri.

14 Dywedodd Rheolwr Cynllun Arbed wrthym ei fod wedi atgyweirio rhai boeleri ond nad oedd wedi codi tâl ar Lywodraeth Cymru am yr atgyweiriadau hyn.

## Byddai contractau yn y dyfodol yn elwa o ragor o waith craffu ar ddarpariaeth a gwell gwybodaeth reoli

### Monitro perfformiad

2.14 Mae gan gontractau Arbed a Nyth Ddangosyddion Perfformiad Allweddol amrywiol (**Atodiad 2**). Mae nifer o'r dangosyddion yn mesur a yw buddiolwyr yn cael gwasanaeth o safon ac yn cael eu defnyddio i gyfrifo taliadau sy'n gysylltiedig â pherfformiad i'r Rheolwyr Cynllun[15]. Mae dangosyddion eraill yn monitro a yw'r cynlluniau yn cyflawni eu hamcanion cyffredinol o ran lleihau tlodi tanwydd a sicrhau manteision amgylcheddol a chymunedol.

2.15 Mae sawl mater sy'n ymwneud â data Dangosydd Perfformiad Allweddol wedi llesteirio goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru (**Arddangosyn 7**). Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwylio am y materion hyn bob amser nac wedi gweithredu'n gyflym i'w datrys nhw. Mae gan Lywodraeth Cymru drefniadau sicrhau ansawdd annibynnol ar waith i wirio cywirdeb Cytundeb Lefel Gwasanaeth[16] Rheolwyr Cynllun ac adroddiadau Dangosydd Perfformiad Allweddol. Fodd bynnag, nid yw gwaith yn y maes hwn wedi ei gwblhau yn unol â'r contract (**paragraff 2.26**).

15 Ceir darpariaeth yn y contractau hefyd fel y gall Llywodraeth Cymru godi Taliadau Cosb Gwasanaeth ar Reolwyr Cynllun pe bai anfonebau, data neu adroddiadau yn cael eu cyflwyno'n hwyr neu pe na bai lefelau'r gwasanaeth yn cael eu cyflawni. Nid oes unrhyw daliadau cosb wedi eu codi hyd yma.

16 Yn ogystal â Dangosyddion Perfformiad Allweddol, mae gan y contract nifer o Gytundebau Lefel Gwasanaeth y mae'n rhaid cadw atynt mewn cysylltiad ag amserlenni.

**Arddangosyn 7: trosolwg o'r problemau â Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Arbed a Nyth**

| Maes Dangosydd perfformiad allweddol | Mater a nodwyd |
|---|---|
| **Ansawdd y gosodiadau**  | Ar gyfer y ddau gynllun, mae'n ofynnol i'r Rheolwyr Cynllun gofnodi cyfran y gosodiadau a gynhelir pan nad oes angen unrhyw gamau adferol i gyrraedd safonau'r diwydiant. Mae dilyswr ansawdd annibynnol Llywodraeth Cymru (**paragraff 2.19**) yn adolygu sampl o osodiadau er mwyn cadarnhau nad oedd angen unrhyw waith adferol. Mae'r Rheolwyr Cynllun yn cael taliadau sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn seiliedig ar yr wybodaeth hon.<br><br>I ddechrau, gwnaeth Llywodraeth Cymru y taliadau sy'n gysylltiedig â pherfformiad i Nyth ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Rheolwr Cynllun. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru o'r farn nad oedd y system a ddefnyddid gan Nyth i benderfynu a oedd angen gwaith adfer ar y gosodiad yn gadarn. Cytunodd Llywodraeth Cymru a'r Rheolwr Cynllun i ddefnyddio'r data a gofnodwyd gan y dilyswr ansawdd annibynnol yn lle hynny, ond caniatawyd i Reolwr Cynllun Nyth herio hyn pan fo gwahaniaethau. Daeth y broses ddiwygiedig i rym o fis Hydref 2020. Nid oedd Rheolwr Cynllun Nyth wedi cadw cofnodion hanesyddol, felly ni ellid cymhwyso'r broses yn ôl-weithredol i weld a oedd y taliadau yn gysylltiedig â pherfformiad i Nyth yn gywir. |
| **Arbedion ariannol aelwydydd**  | Oherwydd ei fod yn defnyddio hen fethodoleg, adroddodd Rheolwr Cynllun Nyth yr arbedion ariannol a gafodd aelwydydd drwy'r cynllun yn ystod 2018-19 yn anghywir yn ei adroddiad blynyddol. |

| Maes Dangosydd perfformiad allweddol | Mater a nodwyd |
|---|---|
| **Cwynion gan ddeiliaid tai** | Ar gyfer y ddau gynllun, mae'r Rheolwyr Cynllun yn cofnodi gwybodaeth am y cwynion y maent wedi eu cael gan ddeiliaid tai sydd wedi derbyn cymorth.<br><br>Mae rhai deiliaid tai, nad oeddent yn fodlon â'r ffordd yr oedd Rheolwr Cynllun Nyth yn ymdrin â'u cwynion ynghylch gosodiadau, wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Dangosydd Perfformiad Allweddol ychwanegol i fonitro cwynion a wneir i Lywodraeth Cymru ynghylch ymateb Rheolwr Cynllun Nyth i bryderon deiliaid tai. |
| **Gwelliannau effeithlonrwydd ynni cyffredinol** | Tan fis Ebrill 2021, roedd y fethodoleg a ddefnyddid gan Reolwr Cynllun Nyth i fesur y gwelliannau effeithlonrwydd ynni cyffredinol a gyflawnid yn wahanol i'r un a ddefnyddid gan Reolwr Cynllun Arbed. Roedd y fethodoleg a ddefnyddid gan Nest yr un fath â'r un a ddefnyddiwyd i gyfrifo cymhwysedd (**paragraff 1.18**), sy'n goramcangyfrif aneffeithlonrwydd ynni cyffredinol aelwyd. |
| **Manteision amgylcheddol** | Oherwydd ei fod yn defnyddio hen fethodoleg, adroddodd Rheolwr Cynllun Nyth y gostyngiadau carbon a gafwyd trwy'r cynllun yn ystod 2018-19 yn anghywir yn ei adroddiad blynyddol (**paragraff 1.18**).<br><br>Roedd y ffigurau a ddarparwyd gan Reolwr Cynllun Arbed ar y gostyngiad amcangyfrifedig cyfartalog mewn unedau ynni a modelwyd sydd eu hangen i redeg y cartref wedi amcanu ffigurau bob tair blynedd yn hytrach na'r ffigurau blynyddol gwirioneddol yr oedd eu hangen.<br><br>Yn seiliedig ar y ffigurau a adroddwyd ar gyfer dwy flynedd gyntaf contract presennol Arbed a rhan o'r drydedd flwyddyn, nid oedd y cynllun ar y trywydd iawn i sicrhau'r gostyngiad carbon a dargedwyd.<br><br>Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod y targed cychwynnol hwn yn rhy uchelgeisiol ac na ellir ei gyflawni yn realistig, ond nid yw'n bwriadu newid y Dangosydd Perfformiad Allweddol, felly ni fydd y Rheolwr Cynllun yn ei gyflawni erbyn diwedd y contract. |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

2.16 Yr hyn sy'n allweddol wrth oruchwylio unrhyw gontract yw gwybodaeth reoli hygyrch ac o ansawdd da er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ac asesu perfformiad. Yn ein barn ni, mae lle i wella'r wybodaeth reoli y mae Llywodraeth Cymru yn ei chael oddi wrth Reolwyr Cynllun. Ar sawl achlysur yn ystod ein gwaith maes, roedd gwybodaeth yr oeddem yn ei disgwyl ei chael yn rhwydd yn rhan o waith monitro Llywodraeth Cymru naill ai heb fod ar gael, yn anodd ei chael neu'n anghyflawn. Er enghraifft:

- nid oeddem yn gallu cael cyfrif lefel uchel o'r nifer o weithiau yr oedd pob mesur effeithlonrwydd ynni wedi ei osod mewn fformat syml. Roedd gan y ddau Reolwr Cynllun systemau cofnodi gwahanol a oedd yn gofyn inni wneud gwaith trin data sylweddol.
- nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael am nifer y boeleri a oedd wedi torri yr oedd yn bosibl eu hatgyweirio (**paragraff 2.10**).
- nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi hanes llawn inni o'r broses o ailbroffilio targedau cyflawni a gwario Arbed (**paragraff 1.27**).

## Cydymffurfio â gofynion contractiol

2.17 Mae'r contractau gyda Rheolwyr Cynllun yn cynnwys darpariaethau sydd wedi eu cynllunio i sicrhau gwasanaeth cadarn ac o ansawdd da, a gwerth am arian cyffredinol. Mewn rhai achosion, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon i sicrhau bod y Rheolwyr Cynllun wedi cydymffurfio â gofynion y contract. Yn benodol, nid oedd y Rheolwr Cynllun wedi cyflwyno cynllun adfer yn sgil trychinebau o fewn 15 niwrnod i'r adeg pan ddaeth y contract yn effeithiol yn ôl y gofyn ac ni wnaeth Llywodraeth Cymru ofyn amdano i ddechrau[17]. Ni ddarparodd Rheolwr Cynllun Nyth ei gynllun adfer yn sgil trychinebau tan fis Mai 2020, a chyflwynodd Rheolwr Cynllun Arbed ei gynllun ym mis Awst 2021 ar gais Llywodraeth Cymru.

2.18 Mae'r contractau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Reolwyr Cynllun sicrhau nad yw is-gontractwyr yn cynnig gwaith preifat ychwanegol i ddeiliaid tai ac maent yn gwahardd y Rheolwyr Cynllun a'r is-gontractwyr rhag cynnig cynhyrchion gwarant ychwanegol. Mae gan Reolwyr Cynllun Nyth ac Arbed drefniadau ar waith i sicrhau bod is-gontractwyr yn ymwybodol o'r rheolau hyn. Fodd bynnag, yn dilyn awgrym gan ein gwaith, gwnaeth Llywodraeth Cymru hi'n ofynnol i Reolwr Cynllun Arbed fod â chytundebau a lofnodwyd ar waith gydag is-gontractwyr. Bwriad Llywodraeth Cymru oedd i'r cytundebau hyn ailadrodd bod yn rhaid i is-gontractwyr gael gwybod na chânt gynnig mesurau na gwarantau ychwanegol. Nid ydym wedi adolygu'r broses hon yn rhan o'n gwaith.

17 Roedd contract Arbed yn weithredol o 1 Mai 2018 ac roedd contract Nyth yn weithredol o 1 Ebrill 2018.

## Bydd angen cymorth mwy amserol a chynhwysfawr o drefniadau archwilio a sicrwydd ansawdd allanol annibynnol ar unrhyw drefniadau newydd

2.19 Mewn iteriadau cynharach y Rhaglen Cartrefi Clyd, pan nad oedd trefn sicrhau ansawdd ar waith, achosodd gosodiadau o ansawdd gwael gan rai is-gontractwyr ddifrod hirdymor i rai cartrefi[18]. Er mwyn gwylio rhag problemau tebyg yn iteriad presennol y Rhaglen, dyfarnodd Llywodraeth Cymru gontract Sicrhau Ansawdd ac Archwilio tair blynedd i ddilyswr ansawdd annibynnol ym mis Gorffennaf 2018[19].

2.20 Yn fras, mae tair agwedd ar y gwaith sicrhau ansawdd ac archwilio:

- gwaith archwilio gosodiadau: gwirio sampl o osodiadau er mwyn cadarnhau bod mesurau wedi eu gosod yn unol â safonau'r diwydiant. Mae hyn yn cynnwys gwirio bod y mesurau effeithlonrwydd ynni mwyaf priodol yn cael eu hargymell cyn ymgymryd â gwaith gosod. Mae hefyd yn cynnwys gwiriadau yn ystod y broses osod ac ar ôl y broses honno.
- adolygu gwasanaeth ffôn cyngor a chymorth Nyth: gwirio bod cymhwysedd cwsmeriaid yn cael ei gofnodi'n gywir a bod y cyngor o ansawdd uchel.
- dilysu gwybodaeth am berfformiad: rhoi sicrwydd ynghylch agweddau ar berfformiad, megis cywirdeb y data Dangosydd Perfformiad Allweddol a gynhyrchir gan y Rheolwyr Cynllun.

2.21 Er mwyn sicrhau ansawdd unrhyw elfen arall o gynlluniau Nyth ac Arbed, mae'r contract hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ofyn i ddilyswyr ansawdd gynnal archwiliadau ad hoc am ffi ychwanegol. Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gofyn am unrhyw waith archwilio ychwanegol o dan y ddarpariaeth hon.

18 Roedd y problemau hyn yn ymwneud ag inswleiddio waliau allanol yn bennaf. Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd y math hwn o fesur wedi ei ddefnyddio yn iteriad presennol y Rhaglen, ond rydym yn deall y byddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer o leiaf un eiddo yn haf 2021.

19 Pennington Choices Limited.

### Gwaith archwilio gosodiadau

2.22 Tan fis Mawrth 2021, roedd y gwaith archwilio gosodiadau ar ei hôl hi. Ym mis Ionawr 2020, roedd 536 o arolygiadau yn hwyr ar gyfer cynlluniau Nyth ac Arbed gyda'i gilydd. Nododd Llywodraeth Cymru a'r dilyswyr ansawdd sawl ffactor a oedd yn cyfrannu at yr oedi, gan gynnwys capasiti'r staff â'r dilyswyr ansawdd ac anawsterau wrth gael gwybodaeth amserol a chyflawn gan y Rheolwyr Cynllun ar gyfer rhai gosodiadau. Ym mis Ionawr 2020, ar gais Llywodraeth Cymru, paratôdd y dilyswyr ansawdd gynllun gwella gwasanaethau i fynd i'r afael â'r ôl-groniad. Roedd y cynllun yn nodi trefniadau i sicrhau y byddai'r ôl-groniad yn cael sylw erbyn mis Medi 2020.

2.23 Oherwydd y pandemig, bu cyfnodau pan nad oedd y dilyswyr ansawdd yn gallu ymweld â chartrefi i archwilio'r mesurau a osodwyd yn ôl y bwriad[20]. Fodd bynnag, cyflwynodd aseswyr ansawdd archwiliadau 'bwrdd gwaith' ym mis Gorffennaf 2020 ar sail tystiolaeth ffotograffig o'r gosodiadau yn hytrach nag ymweliadau â'r safleoedd. Roedd y dull hwn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gael rhywfaint o sicrwydd ynghylch gwaith gosod. O ganlyniad i hynny, cliriwyd ôl-groniad y gwaith archwilio gosodiadau erbyn mis Mawrth 2021.

2.24 Er bod y dull bwrdd gwaith wedi bod yn fuddiol o ran adfer yn sgil yr ôl-groniad a bod y rheswm dros ei fabwysiadu yn ystod y pandemig yn glir, nid yw archwiliadau bwrdd gwaith mor gadarn ag arolygiadau ffisegol ar y safle. Mae'r dilyswyr ansawdd yn mynd yn ôl at wneud gwaith ar y safle yn raddol, ond maent yn dal i ddefnyddio archwiliadau bwrdd gwaith o hyd hefyd. Mae'r gymhareb rhwng archwiliadau bwrdd gwaith ac archwiliadau ar y safle yn amrywio o'r naill fis i'r llall.

### Dilysu gwybodaeth am berfformiad

2.25 Mae'n ofynnol hefyd fod y dilyswyr ansawdd yn archwilio cywirdeb adroddiadau y Rheolwyr Cynllun o'u cymharu yn flynyddol â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth. Pe byddai'r dilyswyr ansawdd yn nodi bod data'r Rheolwyr Cynllun ar gyfer unrhyw un o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n gysylltiedig â thâl perfformiad yn anghywir, gall Llywodraeth Cymru adennill taliadau (**paragraff 2.15**).

20 Ar gyfer cynllun Nyth, Rhagfyr 2020 a Chwefror a Mawrth 2021 oedd hyn. Ar gyfer cynllun Arbed, Gorffennaf, Awst a Hydref 2020 oedd hyn.

2.26 Nid yw'r dilyswyr ansawdd wedi cwblhau archwiliadau o gywirdeb data Cytundeb Lefel Gwasanaeth a Dangosydd Perfformiad Allweddol bob blwyddyn. O ganlyniad i hynny, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwybod a oedd angen adennill unrhyw daliadau. Cwblhaodd y dilyswr ansawdd ei archwiliad Dangosydd Perfformiad Allweddol a Chytundeb Lefel Gwasanaeth cyntaf ar gyfer Nyth ym mis Gorffennaf 2021. Gwnaeth nifer o argymhellion, ac nid oedd yr un ohonynt yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adennill cyllid. Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl y byddai'r dilyswr ansawdd hefyd wedi cwblhau ei archwiliad Dangosydd Perfformiad Allweddol a Chytundeb Lefel Gwasanaeth cyntaf ar gyfer Arbed ym mis Gorffennaf 2021. Derbyniodd Llywodraeth Cymru adroddiad archwilio drafft ym mis Medi 2021.

### Trefniadau ar gyfer y dyfodol

2.27 Ym mis Ionawr 2021, estynnodd Llywodraeth Cymru y contract gyda'r dilyswyr ansawdd am 12 mis arall, tan fis Gorffennaf 2022. Yn ystod y cyfnod hwn, ac mewn unrhyw drefniadau cyfatebol yn y dyfodol, bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cael cymorth mwy amserol o'i threfniadau sicrhau ansawdd. Bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru unioni'n gyflym unrhyw broblemau ag ansawdd y gosodiadau ac ag ansawdd yr adroddiadau y mae taliadau contractiol yn dibynnu arnynt.

# Atodiadau

1. Ymagwedd a dulliau archwilio

2. Ynghylch y Rhaglen Cartrefi Clyd

# 1. Ymagwedd a dulliau archwilio

**Ymagwedd archwilio**

Gwnaethom ganolbwyntio ar sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn rheoli contractau ar gyfer gwneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni i gartrefi drwy iteriad presennol ei Rhaglen Cartrefi Clyd (y Rhaglen). Nid yw'r adroddiad hwn yn ystyried gwerth cyffredinol am arian y Rhaglen Cartrefi Clyd.

Dilynodd y gwaith o'n hadroddiad 2019 ar Dlodi Tanwydd[21], sef trosolwg lefel uchel o uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o ran tlodi tanwydd a chynnydd ar y pryd. Gwnaethom sawl argymhelliad ar faterion allweddol i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth iddi ymgynghori ar ei Chynllun Tlodi Tanwydd newydd a'i gwblhau[22].

Er mwyn llywio ein gwaith, gwnaethom ystyried y canlynol hefyd:

- Gohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a gododd bryderon ynghylch gwerth am arian a'r broses o reoli contract cynllun Arbed.
- Adroddiad ym mis Ebrill 2020 gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Dlodi Tanwydd yng Nghymru.
- Cwmpas adolygiad annibynnol o gynllun Arbed a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (i'w gyhoeddi yn ddiweddarach yn gynnar yn 2022).
- Yr effaith y mae pandemig COVID-19 wedi ei chael ar y Rhaglen.

Ni wnaethom ddechrau adolygu ymateb cyffredinol Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion blaenorol. Fodd bynnag, pan fo'r argymhellion hynny'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli contract y Rhaglen, rydym wedi gwneud sylwadau arnynt yn yr adroddiad hwn.

21 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tlodi Tanwydd, Hydref 2019

## Dulliau archwilio

| | |
|---|---|
| Adolygu dogfennau | Gwnaethom adolygu llawer iawn o ddogfennau, gan gynnwys, er enghraifft, cofnodion cyfarfodydd, manylebau tendro, dogfennau contractiol a sesiynau briffio Gweinidogion. |
| Cyfweliadau Lledstrwy-thuredig | Gwnaethom gynnal cyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â rheolaeth y Rhaglen. Gwnaethom gynnal cyfweliadau hefyd â chynrychiolwyr o Pennington Choices Limited, sef dilyswr ansawdd annibynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen. Buom yn ymgysylltu â Rheolwyr Cynllun Nyth ac Arbed yn rhan o'n proses o glirio cyn cyhoeddi. |
| Dadansoddi data | Gwnaethom adolygu'r data gwariant a gosodiadau sydd ar gael ar gyfer cynlluniau Nyth ac Arbed. Gwnaethom ddadansoddi hefyd y data prisio a ddarparwyd gan y Rheolwyr Cynllun am osod mesurau effeithlonrwydd ynni o dan y contractau. |
| Sesiynau sylwadau | Gwnaethom gwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru i ofyn cwestiynau dilynol am y data a'r dogfennau a gawsom. Defnyddiwyd y sesiynau sylwadau hyn i brofi hefyd ein canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg. |

# 2. Ynghylch y Rhaglen Cartrefi Clyd


Mae Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn cynnwys dau gynllun ar wahân sydd wedi eu cynllunio i fynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi (**Arddangosyn 8**). Mae'r ddau gynllun yn darparu amrywiaeth o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim, a chyngor a chymorth diduedd am ddim i helpu deiliaid tai i leihau eu biliau ynni.

Dechreuodd cynlluniau Arbed a chynlluniau Nyth yn 2009 a 2011, yn y drefn honno. Dechreuodd iteriad presennol cynllun Nyth ym mis Ebrill 2018 a disgwylir iddo ddod i ben ym mis Mawrth 2023, ac mae gan Lywodraeth Cymru y dewis o'i estyn am hyd at dair blynedd arall. Cynhaliwyd iteriad presennol cynllun Arbed o fis Mai 2018 hyd at fis Mai 2021, ac mae gan Lywodraeth Cymru y dewis o'i estyn hyd at fis Mai 2023. Fodd bynnag, daeth y contract i ben ar 3 Tachwedd 2021.

## Arddangosyn 8: disgrifiad o gynlluniau Nyth ac Arbed

| Nest | | Arbed |
|---|---|---|
| Ariennir gan Lywodraeth Cymru yn unig | **Sut mae'n cael ei ariannu?** | Ariennir gan Lywodraeth Cymru a Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. |
| Rheolir gan Nwy Prydain<br>**Llinell ffôn er mwyn darparu cyngor a chymorth**<br>Cyngor a chymorth am ddim i helpu pobl i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi. Darperir gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni sy'n gweithredu fel is-gontractwr i Nwy Prydain[1].<br>**Gwasanaeth Gwella Effeithlonrwydd Ynni Cartref (GGEYC)**<br>Pecyn o fesurau effeithlonrwydd ynni am ddim a arweinir gan y galw i helpu aelwydydd sy'n gymwys i leihau eu biliau ynni cartref.<br>Cyflawnir yr holl waith gosod gan is-gontractwyr a benodir gan y Rheolwr Cynllun.<br>Gallai mesurau gynnwys boeler newydd, system gwres canolog, inswleiddio croglofft, inswleiddio waliau ceudod, inswleiddio waliau allanol neu dechnolegau mwy newydd megis pympiau gwres ffynhonnell aer. | **Beth mae'n ei wneud?** | Rheolir gan Arbed am Byth.<br>Darparu pecyn o fesurau effeithlonrwydd ynni am ddim i aelwydydd sy'n gymwys i'w helpu i leihau eu biliau ynni cartref, a oedd hefyd yn cynnwys cyngor a chymorth diduedd am ddim i helpu cwsmeriaid i leihau eu biliau ynni.<br>Gallai mesurau gynnwys boeler newydd, system gwres canolog, inswleiddio croglofft, inswleiddio waliau ceudod, inswleiddio waliau allanol neu dechnolegau mwy newydd megis pympiau gwres ffynhonnell aer.<br>Cyflawnid yr holl waith gosod gan is-gontractwyr a benodwyd gan y Rheolwr Cynllun. |

| Nest | | Arbed |
|---|---|---|
| Mae'r llinell gyngor a chymorth ar gael i bob aelwyd yng Nghymru.<br><br>Er mwyn cael mesurau effeithlonrwydd ynni am ddim drwy Wasanaeth Gwella Effeithlonrwydd Ynni Cartref, mae'n rhaid i aelwydydd gael eu gosod ar rent yn breifat neu fod yn aelwydydd sy'n eiddo preifat, gan fod ymhlith y rhai mwyaf aneffeithlon o ran ynni.<br><br>Mae'n rhaid i aelwydydd fod yn derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd hefyd, gan fod â Thystysgrif Perfformiad Ynni[3] a chanddi sgôr E, F neu G.<br><br>neu<br><br>Mae'n rhaid i aelwydydd fod ag aelod sydd â chyflwr iechyd, incwm isel, gan fod â sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni D, E, F neu G. | **Pwy sy'n gymwys?**<br><br> | Roedd yn ofynnol bod aelwydydd cymwys y tu mewn i ardaloedd daearyddol a oedd wedi eu targedu y nodwyd eu bod nhw fwyaf tebygol o gynnwys pobl sy'n profi tlodi tanwydd, ac roeddent yn gallu cynnwys tai cymdeithasol[2]. Ystyriodd y Rheolwr Cynllun amrywiaeth o ffactorau i nodi meysydd i'w targedu, gan gynnwys lefelau amddifadedd a dadansoddi data sgoriau effeithlonrwydd ynni cartrefi a gyhoeddwyd gan lywodraeth y DU.<br><br>Mae'n rhaid i aelwydydd fod wedi cael sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni E, F neu G. Roedd aelwydydd â sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni D neu uwch hefyd yn gymwys, ond roedd yn rhaid cyfyngu ar y rhain gymaint â phosibl. |

| Nest | | Arbed |
|---|---|---|
| Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriad i gadarnhau bod deiliad y tŷ yn hawlio budd-daliadau cymwys. Ar ôl asesiad cychwynnol dros y ffôn, mae asesydd ynni sy'n gweithio i Nwy Prydain yn llunio Adroddiad Perfformiad Ynni. At ddibenion cyfeirio yn unig y mae hyn, ac nid yw'n cael ei gyflwyno i lywodraeth y DU. | **Sut mae cymhwysedd yn cael ei asesu?**  | Ar ôl i ardaloedd daearyddol gael eu nodi ac aelwydydd â diddordeb gadarnhau eu bod yn dymuno cael cymorth, cynhaliodd asesydd ynni cymwysedig annibynnol asesiad ynni a lluniodd Dystysgrif Perfformiad Ynni. Yna, fe'i cyflwynwyd yn ffurfiol i lywodraeth y DU. |
| Hyd at £5,000 neu £8,000 fesul aelwyd ar gyfer aelwydydd sydd wedi eu cysylltu â'r rhwydwaith nwy, neu £8,000 neu £12,000 ar gyfer aelwydydd nad ydynt wedi eu cysylltu â'r rhwydwaith nwy[4]. | **Faint sy'n cael ei wario fesul aelwyd?**  | Hyd at £5,000 neu £8,000 fesul aelwyd ar gyfer aelwydydd sydd wedi eu cysylltu â'r rhwydwaith nwy, neu £8,000 neu £12,000 ar gyfer aelwydydd nad ydynt wedi eu cysylltu â'r rhwydwaith nwy[4]. |

Nodiadau:

1 Nid ydym wedi ystyried yr agwedd hon ar wasanaeth Nyth yn rhan o'r archwiliad hwn.

2 Er y gallai'r cynllun gynnwys cymorth ar gyfer tai cymdeithasol, nid oedd Llywodraeth Cymru na'r Rheolwr Cynllun yn disgwyl i dai cymdeithasol gael eu targedu, a gwnaeth Llywodraeth Cymru ofyniad nad oedd y buddsoddiad angenrheidiol gan landlordiaid cymdeithasol (cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol) yn cael ei ddisodli gan gyllid drwy'r cynllun.

3 Gelwir system argymelledig llywodraeth y DU ar gyfer mesur sgôr effeithlonrwydd ynni anheddau preswyl yn Weithdrefn Asesu Safonol. Mae'n defnyddio sgôr gyffredinol o 1-120, gydag 1 yn nodi'r lleiaf effeithlon o ran ynni a 120 yw'r uchaf. Yna caiff sgoriau Gweithdrefn Asesu Safonol eu bandio i roi sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni A-G, gydag A yn nodi'r uchaf, ac G, yr isaf.

4 Ar gyfer cartrefi â Thystysgrif Perfformiad Ynni E, £5,000 oedd yr uchafswm gwariant ar gyfer cartrefi ar grid nwy y prif gyflenwad, a £8,000 ar gyfer y rhai nad oedd ar rwydwaith nwy y prif gyflenwad. Ar gyfer cartrefi â Thystysgrif Perfformiad Ynni F neu G, £8,000 oedd yr uchafswm gwariant ar gyfer cartrefi ar rwydwaith nwy y prif gyflenwad, a £12,000 ar gyfer y rhai nad oedd ar rwydwaith nwy y prif gyflenwad.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

Pennodd Llywodraeth Cymru nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y Rheolwyr Cynllun (**Arddangosyn 9**). Mae **paragraff 2.28** yn y prif adroddiad yn tynnu sylw at sut mae sawl mater sy'n ymwneud â data Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi llesteirio goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru ar y perfformiad. Oherwydd y materion hyn, nid ydym wedi adrodd ar y perfformiad o'i gymharu â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol y tu hwnt i nifer yr aelwydydd a gefnogwyd.

**Arddangosyn 9: y Dangosyddion Perfformiad Allweddol gwreiddiol ar gyfer y cynlluniau Nyth ac Arbed**

| Dangosydd | Nest | | Arbed | |
|---|---|---|---|---|
| | **Disgrifiad** | **Targed Blynyddol** | **Disgrifiad** | **Targed Blynyddol** |
| **Bodlonrwydd cwsmeriaid** | Gwasanaeth ateb galwadau, cyngor ac atgyfeirio[1] | 95% neu fwy | Gwasanaeth cynghori yn y cartref i ddeiliaid tai[1] | 95% neu fwy |
| | Gwasanaeth Gwella Effeithlonrwydd Ynni Cartref[1] | | Cwblhau gosodiadau[1] | |
| **Cwynion gan gwsmeriaid** | Gwasanaeth ateb galwadau, cyngor ac atgyfeirio[1] | 3% neu lai | Cymorth cyngor ar ynni yn y cartref[1] | 3% neu lai |
| | Gwasanaeth Gwella Effeithlonrwydd Ynni Cartref[1] | | Gweithio i osod y mesurau a ddyrannwyd mewn annedd sy'n perthyn i ddeiliad tŷ[1] | |
| **Amserlenni** | Nifer y diwrnodau rhwng y cyswllt cychwynnol â'r cwsmer a chwblhad y gwaith gosod[1] | 45 Diwrnod Gwaith neu lai | Dim dangosydd | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd**  | Nifer y gosodiadau sy'n pasio arolygiad cyntaf y darparwr gwasanaeth[1] | 98% neu fwy | Nifer y gosodiadau sy'n pasio arolygiad cyntaf y darparwr gwasanaeth[1] | 98% neu fwy |
| | Nifer y gosodiadau sy'n cyrraedd y safon ansawdd yn dilyn gwaith monitro annibynnol | 100% | Nifer y gosodiadau sy'n cyrraedd y safon ansawdd yn dilyn gwaith monitro annibynnol | 100% |
| **Nifer yr aelwydydd a gefnogwyd**  | Nifer yr aelwydydd unigryw a gafodd gyngor a chymorth | 15,000 | Nifer yr aelwydydd unigryw a gafodd gyngor a chymorth | 6,325 erbyn diwedd y contract[2] |
| | Nifer yr aelwydydd a gafodd becyn o fesurau effeithlonrwydd ynni am ddim | 4,100 | Nifer yr aelwydydd a gafodd becyn o fesurau effeithlonrwydd ynni am ddim | 6,325 erbyn diwedd y contract[2] |
| **Perfformiad mewn cysylltiad â lleihau tlodi tanwydd**  | Lleihau'r costau ynni a fodelir oherwydd mesurau a osodwyd a chyngor yn y cartref a ddarparwyd | £425 fesul annedd ar gyfartaledd | Lleihau'r costau ynni a fodelir o ganlyniad i fesurau a osodwyd a chyngor yn y cartref a ddarparwyd | £425 fesul annedd ar gyfartaledd |
| | Cynnydd yn y sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni o G/F/E hyd at D neu uwch | Cynnydd o 80% hyd at Dystysgrif Perfformiad Ynni D neu uwch | Cynnydd yn y sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni o G/F/E hyd at C neu uwch | Cynnydd o 80% hyd at Dystysgrif Perfformiad Ynni C neu uwch[3] |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Manteision amgylcheddol**  | Gostyngiad cyfartalog yn yr unedau ynni a fodelwyd y mae eu hangen i redeg y cartref | 15,000 mega joule neu fwy | Gostyngiad cyfartalog yn yr unedau ynni a fodelwyd y mae eu hangen i redeg y cartref | 15,000 mega joule neu fwy |
| | Cyfanswm y gostyngiad amcangyfrifedig mewn effaith garbont | 14,760 tunnell o $CO_2$ neu fwy | Cyfanswm y gostyngiad amcangyfrife-dig mewn ef-faith garbon | 22,700 tunnell $CO_2$ neu fwy erbyn diwedd y contract |
| **Manteision economaidd / cymunedol**  | Nifer o swyddi, prentisiaethau, cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith newydd yn cael eu creu | 40 yn ystod oes y cynllun | Dim dangosydd | |
| | Cyfran y gosodiadau i'w chwblhau'n flynyddol gan Fusnesau Bach a Chanolig | 100% | Cyfran y gosodiadau i'w chwblhau'n flynyddol gan Fusnesau Bach a Chanolig | 100%, y mae'n rhaid i 90% ohonynt fod yn Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru |

Nodiadau:

1 Yn dynodi bod Dangosydd Perfformiad Allweddol yn cynnwys taliad perfformiad.
2 Newidiwyd i 5,500 yn dilyn newid i'r contract ym mis Rhagfyr 2019 (**paragraff 1.27**)
3 Dilëwyd y targed yn dilyn newid i'r contract ym mis Rhagfyr 2019 (**paragraff 1.27**)

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru